**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/our ref: MA-HIDCC-1855-25

Llŷr Gruffydd
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru

4 Tachwedd 2025

Annwyl Llŷr,

Cyfeiriaf at fy llythyr atoch ar 20/10/2025 ynghylch Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Pecynwaith a Gwastraff Pecynwaith) (Diwygio) 2025 ("y Rheoliadau").

Ysgrifennais atoch yn flaenorol i hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer y Rheoliadau uchod sydd ar lefel y DU fod yn gymwys i Gymru. Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi fy mod bellach wedi rhoi'r cydsyniad hwnnw. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig hefyd ac mae i'w weld yma: **Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Pecynwaith a Gwastraff Pecynwaith) (Diwygio) 2025 (4 Tachwedd 2025) | LLYW.CYMRU**

Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, a'r Alban. Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, ac fe'u gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 3 Tachwedd 2025. Yn amodol ar ddadl a chymeradwyaeth yn nau Dŷ Senedd y DU, bydd y Rheoliadau yn dod i rym ar 1 Ionawr 2026.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Mike Hedges, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs